Beibl i Blant
yn cyflwyno

Geni Iesu



Awdur: Edward Hughes
Lluniau gan: M. Maillot

Cyfieithydd: Catrin Roberts
addaswyd gan: E. Frischbutter; Sarah S.

Stori 36 o 60

www.M1914.org

Bible for Children, *PO Box 3, Winnipeg, MB R3C 2G1 Canada*

Trwydded: mae gennych hawl i gopïo neu argraffu'r stori hon, ar yr amod nad ydych yn ei gwerthu.

Welsh





Yna dywedodd yr angel wrth Mair fod ei chyfnither Elisabeth yn cael babi er ei bod hi'n hen. Roedd hyn yn wyrth hefyd. Yn fuan wedyn aeth Mair i weld Elisabeth. Dyma nhw'n moli Duw gyda'i gilydd.

3

Roedd Mair wedi ei dyweddïo gyda dyn o'r enw Joseff. Roedd Joseff yn drist pan glywodd fod Mair yn cael babi. Roedd e'n meddwl mai dyn arall oedd y tad.

4

Dywedodd angel Duw wrth Joseff mewn breuddwyd mai Mab Duw oedd y plentyn. Roedd angen i Joseff helpu Mair i ofalu am Iesu.



5

Fe wnaeth Joseff drystio Duw ac ufuddhau iddo. Fe wnaeth e hefyd ufuddhau i gyfraith gwlad.

6

Oherwydd cyfraith newydd, aeth Joseff a Mair i dref teulu Joseff, Bethlehem, i dalu eu trethi.



7



Roedd hi'n amser i Mair eni ei phlentyn. Ond doedd Joseff ddim yn gallu dod o hyd i lety yn unman. Roedd pob man yn llawn.

8

O'r diwedd cafodd Joseff le i aros mewn stabl. Cafodd Iesu ei eni yno. Fe wnaeth ei fam ei roi mewn preseb, cafn oedd yn dal bwyd yr anifeiliaid.

9

Heb fod yn bell i ffwrdd, roedd bugeiliaid yn edrych ar ôl eu defaid. Daeth angel Duw atyn nhw a dweud y newyddion da wrthyn nhw.



10

"Mae eich Achubwr wedi cael ei eni heddiw yn ninas Dafydd, ie, y Meseia. Yr Arglwydd. Dewch o hyd iddo yn gorwedd mewn cafn bwydo anifeiliaid."

11

Yn sydyn, dyma filoedd o angylion llachar eraill yn dod i'r golwg, yn moli Duw ac yn dweud, ...



12

... "Gogoniant i Dduw yn y nefoedd uchod, a heddwch ar y ddaear islaw, a bendith Duw ar bobl."



13

Brysiodd y bugeiliaid i'r stabl. Ar ôl gweld y Babi, dyma nhw'n dweud wrth bawb beth oedd yr angylion wedi ei ddweud am Iesu.



14



Pedwar deg diwrnod wedyn, aeth Joseff a Mair â'r Iesu i'r deml yn Jerwsalem. Yno, dechreuodd dyn o'r enw Simeon ganmol Duw am anfon y Babi. Roedd hen wraig o'r enw Anna oedd yn gweithio i Dduw, hefyd yn diolch amdano.

15



Roedd y ddau yn gwybod fod Iesu yn Fab Duw, yr Achubwr roedd Duw wedi ei addo. Fe wnaeth Joseff aberthu dau aderyn. Dyma'r rhodd roedd Cyfraith Duw yn gofyn amdani pan oedd rhieni tlawd yn cyflwyno eu babi newydd i'r Arglwydd.

16

Ychydig amser wedyn, dyma seren arbennig yn arwain Dynion Doeth o un o wledydd y Dwyrain

i Jerwsalem. "Ble mae'r un sydd newydd gael ei eni i fod yn Frenin yr Iddewon? Rydyn ni eisiau ei addoli." medden nhw.

17

Clywodd y Brenin Herod am y Dynion Doeth. Roedd wedi ei gynhyrfu, a gofynnodd iddyn nhw ddweud wrtho os oedden nhw'n cael hyd i Iesu.



18

"Rydw i am ei addoli hefyd," meddai Herod. Ond roedd e'n dweud celwydd – roedd Herod am ladd Iesu.



19

Arweiniodd y seren y Dynion Doeth i'r tŷ lle roedd Mair a Joseff yn byw gyda'r plentyn bach. Dyma'n nhw'n penlinio o'i flaen i'w addoli. Rhoddodd y teithwyr anrhegion drud o aur a phersawr i Iesu.

20

Cafodd y Dynion Doeth rybudd gan Dduw i fynd adref heb ddweud wrth neb. Roedd Herod yn flin iawn.



21

Yn benderfynol o ladd Iesu, trefnodd y brenin drwg i ladd pob bachgen bach ym Methlehem.



22



Ond doedd Herod ddim yn gallu niweidio Mab Duw! Wedi cael rhybudd trwy freuddwyd, aeth Joseff â Mair ac Iesu i'r Aifft er mwyn bod yn ddiogel.

23

Ar ôl i Herod farw daeth Joseff a Mair ac Iesu yn ôl o'r Aifft.



Aethon nhw i fyw i dref fach Nasareth, wrth ymyl llyn Galilea.

24

Geni Iesu

Stori o Air Duw, y Beibl

sydd i'w gweld yn

Mathew 1-2, Luc 1-2

"Pan ddatguddir dy air, bydd yn goleuo."
Salm 119:130

Mae Duw yn gwybod bod ni wedi gwneud pethau drwg, beth mae e'n galw'n bechod. Y gosb am bechod ydy marwolaeth.

Mae Duw yn ein caru ni gymaint, fe wnaeth e anfon ei Fab, Iesu, i farw ar Groes. Fe wnaeth e gymryd ein cosb ni. **Daeth Iesu yn fyw eto** ac aeth yn ôl i'r Nefoedd! Nawr gall Duw faddau ein pechodau.

Os wyt ti am droi oddi wrth dy bechodau, beth am ddweud hyn wrth Dduw: Annwyl Dduw, rwy'n credu bod Iesu wedi marw drosof fi a'i fod yn fyw eto. Os gweli'n dda tyrd i mewn i'm mywyd a maddau fy mhechodau, er mwyn i mi gael bywyd newydd nawr, ac yna cael bod gyda Thi am byth. Helpa fi i fyw fel plentyn i ti. Amen. Ioan 3:16

Cofia ddarllen y Beibl a siarad bob dydd gyda Duw!